Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 10.05.2023

Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn.

This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow.

## DIGWYDDIAD: Diwrnod Busnes Gwynedd, 22 Mai 2023

Bydd Diwrnod Busnes Gwynedd yn gyfle gwych i fusnesau yng Ngwynedd ddod at ei gilydd i gyfarfod, dysgu a rhannu a datblygu syniadau a strategaethau newydd. Bydd y digwyddiad hybrid hwn yn cael ei gynnal ar 22 Mai 2023 – wyneb yn wyneb ym Mhant Du, Penygroes, LL54 6HE, neu ar-lein drwy Zoom. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/DiwrnodBusnesGwynedd2023

# IECHYD A DIOGELWCH: Annog pobl i fwynhau arfordir Gwynedd yn ddiogel

Mae Cyngor Gwynedd yn annog pawb sy'n manteisio ar y cyfle i fwynhau traethau ac arfordir Gwynedd, i wneud hynny yn ddiogel a chymryd pob gofal. I ddarllen y datganiad, ewch i:

https://bit.ly/DatganiadGwynedd04Mai2023

Gall busnesau hefyd helpu i achub bywydau drwy hyrwyddo negeseuon diogelwch dŵr allweddol mewn cymunedau lleol drwy gymryd rhan yn nghynllun llysgenhadon dŵr lleol yr RNLI, ewch i:

https://rnli.org/support-us/volunteer/volunteering-opportunities/rnli-local-ambassador

# NEWYDDION: Tafarn yn arallgyfeirio gyda gardd gymunedol

Mae Tafarn y Plu yn Llanystumdwy wedi elwa o'r fenter 'Pub is the Hub' i greu gardd gymunedol a chynllun rhandiroedd mewn ymgais i helpu trigolion lleol i ddod at ei gilydd ac i helpu gwrthsefyll unigrwydd ac unigedd. I ddarllen mwy am y stori yma, ewch i:

https://bit.ly/3NUmyBJ

Mae grantiau hyd at £3,000 ar gael o Gronfa Gwasanaethau Cymunedol 'Pub is the Hub' i alluogi perchnogion tafarndai gwledig, trwyddedigion a chymunedau lleol i gydweithio i helpu i gefnogi anghenion cymunedau lleol drwy ddefnyddio tafarndai i gynnig gwasanaeth newydd neu i gynnig gwasanaeth sydd eisoes wedi'i golli. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar:

https://www.pubisthehub.org.uk/community-services-fund/

# AROLWG: Gwerth Twristiaeth – Arolwg STEAM Gwynedd 2022

Gofynnir i fusnesau llety ac atyniadau gwblhau Arolwg STEAM Gwynedd 2022. Mae'r arolwg yn bwriadu cael darlun cywir a chyflawn o nifer yr ymwelwyr a gwerth twristiaeth i Wynedd yn 2022. Mae'r canlyniadau yn helpu i benderfynu faint o arian bydd Gwynedd yn ei dderbyn tuag at y gost i wasanaethau cyhoeddus. Cymerwch ran, os gwelwch yn dda, trwy fynd i:

https://bit.ly/ArolwgSTEAMGwynedd2022

# CYFLOGAETH: Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwr

Rhaid i bob busnes sy'n cyflogi staff fod ag yswiriant Atebolrwydd Cyflogwyr. Gall cyflogwyr gael dirwy o £2,500 bob dydd nad ydynt wedi'u hyswirio'n iawn a gallent hefyd gael dirwy o £1,000 os nad ydynt yn arddangos eu tystysgrif yswiriant neu'n gwrthod ei gwneud ar gael i arolygwyr pan fyddant yn gofyn. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.gov.uk/employers-liability-insurance
https://www.hse.gov.uk/pubns/hse40.htm

# DIGWYDDIAD: Diogelwch Seiber Gogledd Cymru – gwarchod eich busnes, gwarchod eich dyfodol 14 Mehefin 2023

Mae Heddlu Gogledd Cymru a Chomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn cynnal digwyddiad rhad ac am ddim i berchnogion busnesau yng Ngogledd Cymru ar sut i gadw busnesau'n ddiogel rhag troseddau seiber. Bydd y digwyddiad drwy'r dydd yma, i'w gynnal ym Mhrifysgol Glyndŵr Wrecsam ar 14 Mehefin 2023, yn cynnwys cyfraniadau gan arbenigwyr diogelwch seiber, arddangosfa a gweithdai rhyngweithiol. Am fwy i wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/3B7SNpB

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Busnesau
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/cy
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru